

UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

31 Ionawr 2012.

Yr Ystafell Bwyllgor

Yn bresennol

Ben Meakin – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr

Geraint Edwards – Prif Weithredwr UMPA

Nansi George – Rheolwr Cyllid UMPA

Martyn Saycell – Rheolwr Gwasanaethau Aelodau UMPA

Jessica Leigh – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr

Alun Minify – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr

Tom Burmeister – Swyddog Cymorth i Fyfirwyr UMPA ac Ymddiriedolwr

Tammy Hawkins – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr

Huw Gilbert – Ymddiriedolwr Ôl-radd UMPA

Michael Buchannan - Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

Stephen Meecham – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Cyfarfod yn dechrau

3.20pm

Ymddiheuriadau

Tim Smith – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Datganiad Diddordeb

Ni ddatganwyd dim.

Adroddiad y Cadeirydd

Rhoddodd Ben Meakin grynodedd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o'i adroddiad ef ac adroddiadau'r Swyddogion Sabothol eraill gan fanylu ar weithgarwch hyd yma a oedd yn cynnwys: ymgyrchoedd, Ffair y Glas, adolygiad strategol llawn UCM, datblygiad arfaethedig i'r adeilad a'r 'cynllun profiad aber'.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd Geraint Edwards grynodedd o'i Adroddiad y Prif Weithredwr a chafwyd trafodaeth ymysg aelodau'r bwrdd ynghylch y cynigion newydd.

Datganiadau Ariannol

Rhoddodd Rheolwr Cyllid UMPA, Nansi George grynodedd ac esboniad o'r datganiadau ariannol.

Adroddiad Ariannol

Rhoddodd Rheolwr Cyllid UMPA, Nansi George adroddiad ariannol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar yr hinsawdd economaidd bresennol yn yr Urdd.

Pwysleisiwyd bod y Barrau ac Adloniant yn parhau i wneud gwarged a bod y ddau yn parhau i fod yn fodelau busnes hyfyw a phosibl. Fodd bynnag cytunwyd bod yn rhaid ymchwilio i feysydd newydd.

Rheoliadau Ariannol

Mabwysiadodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y Rheoliadau Ariannol a'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn.

Adroddiad Gwasanaethau Aelodau

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Aelodau UMPA, Martyn Saycell grynodeb i'r bwrdd o weithgaredd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb o chwaraeon, cymdeithasau, gweithgareddau gwirfoddoli ynghyd â gwybodaeth am archebu ystafelloedd, gwerthiannau cerdyn NUS Extra a chrynodeb o'r dirywiad yn y ffordd mae'r adeilad yn edrych.

UMPA

Cyflwynwyd adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar weithgarwch masnachol yr Urdd.